# Adroddiad ar ymweliad I Israel a’r Llain Orllewinol

Rhwng 24-28 Chwefror 2019 bum yn rhan o gynrychiolaeth o Aelodau Cynulliad a fu ar ymweliad ag Israel a’r Llain Orllewinol.

Roedd sawl bwriad i’r ymweliad, yn cynnwys

- gwella ein dealltwriaeth o’r sefyllfa gyfredol yno o safbwynt gwleidyddol a chrefyddol a’r rhagolygon am heddwch
- rhannu profiadau a dysgu am ddatblygu economaidd, mentergarwch ac arloesedd
- datblygu cysylltiadau a dysgu am eu hymdrechion yn y maes ieithyddol a diwylliannol
- hyrwyddo cysylltiadau rhwng Cymru, Israel a Phalesteina
- cymryd rhan mewn digwyddiad i nodi treftadaeth Gristnogol a milwrol Cymru yn Jerwsalem

Noddwyd yr ymweliad gan Sefydliad Evan Roberts (elusen sydd yn hyrwyddo ac addysgu pobl am dreftadaeth Gristnogol Cymru) ac roedd y gynrychiolaeth heyfd yn cynnwys Alun Davies AC, Mandy Jones AC, Russell George AC, Darren Millar AC a Jenny Rathbone AC.

Roedd ein ymweliad cyntaf gyda Academi’r Iaith Hebraeg ar gampws Giv’at Ram yn Jerwsalem. Sefydlwyd yr Academi trwy ddeddf ym 1953 i wasanaethu fel sefydliad swyddogol yr Iaith Hebraeg. Dros y blynyddoedd, mae'r Academi wedi bod yn sefydliad cenedlaethol ar gyfer astudio'r iaith Hebraeg, gan barhau â'r gwaith a ddechreuwyd gan y Pwyllgor Iaith (Va‘ad Halashon), sy'n cynnwys goruchwylio datblygiad yr iaith a darparu terminoleg broffesiynol a chyson wrth i’r iaith esblygu.

Cawsom gyflwyniad gan yr Athro Aharon Maman, Is-Lywydd yr Academi ar yr adferiad a welwyd yn yr iaith dros y blynyddoedd a sut roedd elfennau litwrgaidd a chrefyddol wedi bod yn ganolog i hynny – nid yn anhebyg i sut y bu i feibl William Morgan chwarae rhan ganolog yng nghynhaliaeth y Gymraeg.




Diddorol oedd dysgu mai’r cyrsiau dwys o ddysgu Hebraeg sef “Ulpan” oedd wedi bod yn ysbrydoliaeth i’r model Wlpan o ddysgu Cymraeg yng Nghymru. Roedd rol ysgolion a’r gyfundrefn addysg ynghyd â defnydd o’r iaith gan gyrff cyhoeddus hefyd yn allweddol yn nhwf yr Iaith Hebraeg ac yn dangos yn glir inni yng Nghymru mor ganolog yw’r rheiny yn adferiad yr iaith Gymraeg.

Yn dilyn yr ymweliad hwn cawsom gyfarfod gydag Emmanuel Nahshon o Weinyddiaeth Materion Rhyngwladol Israel. Rhoddodd drosolwg inni o'r sefyllfa wleidyddol gyfredol yn Israel ynghyd a'r cyd-destun rhyngwladol. Roedd hyn yn arbennig o werthfawr ar adeg oedd yn arwain i fyny at etholiadau cyffredinol yno gyda Benjamin Netanyahu yn gobeithio sicrhau tymor arall fel Prif Weinidog.

Er fod y Knesset wedi ei ddiddymu ar gyfer y cyfnod etholiadol fe gawsom gyfle i gyfarfod ag Aelod o'r Knesset o'r blaid Lafur sef Michal Biran MK, i drafod y rhagolygon etholiadol ac i ddysgu am y system etholiadol ar gyfer y senedd yno.



Roedd hi'n ddiddorol deall mai system cynrychiolaeth gyfrannol oedd yn cael ei defnyddio yno – ond yn lle rhestrau rhanbarthol fel sydd yng Nghymru, roedd rhestrau cenedlaethol o ymgeisyddion. Fel gwleidyddion sydd wedi arfer gydag affinedd i etholaethau a rhanbarthau penodol roedd y cysyniad o senedd yn llawn cynrychiolyddion cenedlaethol yn un diddorol. Ond doedd y diffyg perthynas rhwng etholaethau penodol ag aelodau ddim yn peri trafferth i etholwyr nac aelodau etholedig o'r hyn welom ni.

Honwyd yn y ddau gyfarfod yma nad y broses heddwch oedd prif ffocws yr ymgyrchu (a hynny am y tro cyntaf yn hanes etholiadau modern yn Israel). Roedd materion megis gwasanaethau iechyd, cyflwr yr economi a thai yn fwy blaenllaw. Fe ddaeth yn amlwg serch hynny ar ol inni ddychwelyd i Gymru, fod natur yr ymgyrch a'r berthynas rhwng Israel a Phalesteina wedi dod yn fwy canolog yn dilyn sylwadau dadleuol gan Netanyahu yn nyddiau olaf yr ymgyrch.

Teg dweud hefyd fod hynny wedi bod yn ganolog i drafodaethau eraill a gawsom gyda dau gynrychiolydd arall yn ystod yr ymweliad.

Y cyntaf o'r rheini oedd gyda Dr Abdullah Adbullah sef Cadeirydd Pwyllgor Gwleidyddol y Cyngor Deddfwriaethol Palesteinaidd (Palestinian Legislative Council) oedd hefyd yn uwch-ddiplomydd Palesteinaidd wrth inni gwrdd yn Ramallah yn y Llain Orllewinol. Rhoddodd safbwynt y Palesteiniaid inni ar y sefyllfa gyfredol gan amlygu'r angen i awdurdodau a llywodraethu rhyngwladol wneud llawer mwy i annog heddwch a pherthynas decach rhwng Palesteina a Llywodraeth Israel.



Roedd y diffyg ymddiriedaeth rhwng y ddwy ochor yn y gwrthdaro yn amlwg ac roedd hi'n anodd gweld lle y gellid dod ynghyd heb ymyrraeth gryfach o'r tu allan. Does dim amheuaeth fod y ddwy garfan a'u harweinyddon yn ddi-symud yn eu daliadau ac un argraff benodol a fydd yn aros efo mi o'r ymweliad ydi y bydd hi'n anodd symud y broses ymlaen tan i'r hen dô (ar y ddwy ochr) gamu o'r neilltu.

Cawsom hefyd gyfle i ymweld â'r cynllun "Paths to Peace" yng Netiv HaSara. Cymuned fechan o Israeliaid wedi ei leoli yn agosi iawn at Gaza oedd hon. Gyda mur anferth yn eu gwahanu o Gaza roedd gan y gymuned brofiad o ymosodiadau roced. Mewn ymateb i hyn fe wnaeth un o'r trigolion gychwyn creu murlun ar y wal gyda negeseuon o heddwch a brawdgarwch. Cawsom gyfle i adael ein negeseuon ein hunain ar y murlun fel arwydd o'n cefnogaeth i bob ymdrech i sicrhau heddwch yno.




Cawsom gyfarfodydd mwy gobeithiol hefyd gyda rhai o wleidyddion mwy newydd y rhanbarth, yn cynnwys Dirprwy Faer Jerwsalem Fleur Hassan-Nahoum. Roedd ei hawch hi i ddod â'r gwahanol gymunedau yn Jerwsalem at ei gilydd yn chwa o awyr iach. Roedd hi'n rhagweithiol iawn wrth geisio dod ag Arabiaid ac Iddewon yn y ddinas ynghyd ar sail gwerthoedd cyffredin ac roedd hynny i'w groesawu.

Felly hefyd ein cyfarfod gyda Bashar Masri, gwr busnes ac entrepreneur Palesteinaidd llwyddiannus. Roedd yn cael ei ddisgrifio fel Richard Branson Palesteina ac er iddo wneud ei ffortiwn dramor roedd wedi dychwelyd i'w famwlad i helpu adeiladu'r genedl. Cawsom ymweld â Rawabi sef tref newydd sbon yr oedd e'n ei adeiladu yn y Llain Orllewinol. Roedd yn brosiect anhygoel gyda chanoedd o fflatiau, canolfan siopa, darpariaeth hamdden a'r holl adnoddau y gellir eu disgwyl mewn tref fodern – yn wahanol iawn i gymunedau eraill yr ardal.

Cenad Bashir Masri oedd ei ddymuniad i sicrhau fod y Llain Orllewinol yn lle atyniadol i Balestiniaid fyw a gweithio ynddo ac i brofi fod datblygiadau sylweddol o'r fath yn bosib yno er gwaethaf yr holl broblemau. Ategodd y farn fod angen cenhedlaeth newydd o arweinyddion yn Israel a Phalesteina er mwyn datblygu sail am heddwch yn y dyfodol. Mynegodd hefyd rwystredigaeth fod y trafferthion yn llethu unrhyw bosibilrwydd am drafodaethau gwleidyddol ystyrlon ar faterion pwysig eraill megis cydraddoldeb i ferched a Materion LGBT – dau bwnc oedd ymhell o fod ar yr agenda yno.

Fel rhywun sydd wedi gweithio yn y maes datblygu mentergarwch cyn fy ethol i'r Cynulliad roedd yr ymweliad â Chanolfan Heddwch ac Arloesedd Perez yn Tel Aviv yn brofiad ysbrydoledig. Sefydlwyd y ganolfan ym 1996 gan y diweddar Shimon Peres, cyn- Lywydd Israel. Ei fwriad oedd hyrwyddo mentergarwch a meithrin

arloesedd er mwyn sicrhau ffyniant yn Israel a fyddai'n help i gau'r bwlch economaidd rhwng Israel a'i gymdogion gan helpu paratoi'r ffordd ar gyfer heddwch.



Roedd y defnydd o dechnoleg fodern i rannu stori unigolion oedd wedi arloesi yn effeithiol tu hwnt ac yn dechneg effeithiol tu hwnt o ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid. Roedd y ganolfan yn dathlu llwyddiannau boed yn fentrau busnes neu gymdeithasol. Roedd hefyd yn siop ffenest i fentrau newydd arloesol mewn ystod o feysydd o ynni adnewyddadwy i'r diwydiant fferyllol a deallusrwydd artiffisial. Byddai efelychu'r model yma o arddangos arloesedd fel hyn yng Nghymru yn gaffaeliad mawr i dwf yr economi yma ac yn destun balchder cenedlaethol allai ysbrydoli mwy o arloesedd yma hefyd.

Trafodaeth bwysig arall a gafwyd yn ymwneud â datblygu economaidd oedd honno gyda Nili Shalev, Cyfarwyddwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth Ymchwil a Datblygu Israel a'r UE yn Awdurdod Arloesedd Israel. Cawsom gyfle i glywed am y modd roedd llywodraeth Israel yn annog arloesedd a buddsoddiad mewn marchnadoedd a thechnolegau newydd ar draws y byd. Y nod oedd sicrhau fod Israel yn arwain yn nifer o'r sectorau newydd yma.

Roedd hi'n arbennig o werthfawr clywed sut roedd Israel, fel gwlad o du allan i'r Undeb Ewropeaidd, wedi medru manteisio'n llawn ar gynllun Erasmus+ yr UE – rhywbeth allai fod yn berthnasol iawn inni yng Nghymru os fyddwn ni'n gadael yr UE yn sgil Brecsit.

Cawsom ein tywys o gwmpas Canolfan Feddygol Wolfson yn Tel Aviv gan gyfarfod â chynrychiolwyr o'r elusen Save a Child's Heart. Nod yr elusen yw darparu llawdrinaethau ar y galon i blant difreintiedig o bob rhan o'r byd lle nad oes darpariaeth addas ar gael iddynt. Meant hefyd yn hyfforddi meddygon o'r gwledydd hynny i fedru darparu triniaeth yn eu gwledydd eu hunain er mwyn cwrdd a'r galw yn yr hir-dymor. Roedd pwyslais arbennig hefyd ar ddarparu triniaeth i blant o Gaza a'r Llain Orllewinol gan ddatblygu gwell capasiti yn ysbytai a chanolfannau iechyd y Palesteiniaid i ddelio â phroblemau'r galon ymhlith plant yno.

Cawsom hefyd gyfarfod gyda'r Prif Ustus Asher Grunis yn Uchel Lys Israel yn Jerwsalem. Trafodwyd datblygiad y gyfraith yn Israel yn y blynddoedd ar ôl y Mandad Prydenig. Roedd hi'n sesiwn hynod berthnasol yng ngoleuni'r drafodaeth yng Nghymru ynglyn â chreu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru. Diddorol hefyd oedd dysgu fod gan Asher Grunis gysylltiad â Chymru gan fod ei daid wedi gwasanaethu fel Rabi yng Nghaerdydd ail fod wedi ei gladdu yn y Fynwent Iddewig yn ein prifddinas. Cawsom hefyd gyfle i drafod pryderon ynglyn â'r diffyg mynediad at gyfiawnder i Balesteiniaid.

Yn ystod ymweliadau ag Ucheldiroedd Golan a'r ffin â Gaza cawsom gyflwyniad gan gynrychiolwyr o'r IDF yn esbonio sut roeddynt yn delio a'r tensiynau yno. Amlygwyd hefyd sut yn achos Ucheldiroedd Golan roedd y rhyfel cartref yn Syria yn cyfrannu at fygythiad i ddiogelwch trigolion yn yr ardal honno a thu hwnt. RHoddodd hyn gipolwg inni o'r cyd-destun ehangach yn y rhan hon o'r dwyrain canol a pha mor ddyrys ag aml-haenog yw'r trafferthion yn y rhanbarth.

Yn ystod ein cyfnod yno cawsom hefyd gyfle i ymweld â rhai safleoedd o bwys hanesyddol a thwristaeth grefyddol yn cynnwys Capernaum a Thiberiws ar lannau Mor Galilea ac Eglwys y Bedd Sanctaidd, y Wal Orllewinol a Mynydd yr Olewydd yn Jerwsalem. Mae'r rhain yn safleoedd sy'n denu cannoedd o filoedd o ymwelwyr bob blwyddyn. O gofio fod gennym ninnau lawer i'w gynnig o safbwynt treftadaeth grefyddol roedd hi'n fuddiol gweld y potensial i dyfu'r sector hwnnw yng Nghymru.



Ymweliad oedd yn berthnasol iawn i fy mhortffolio fel Aelod o Bwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Cynulliad oedd i weld safle oedd yn arloesi mewn tyfiant llysiau a ffrwythau trwy ddulliau arloesol. Gan fod diffyg dwr yn broblem gynyddol yn y rhanbarth mae cryn bwyslais wedi ei roi ar ddatblygu dulliau amgen i dyfu cynnyrch bwyd.

Dros y degawdau mae pwyslais wedi bod ar raglenni dyfrhau ac yn fwy diweddar ar ddihalwyno dwr. Erbyn hyn serch hynny mae'n rhaid bod yn fwy darbodus efo dwr ac felly cawsom gyfle i ddysgu am gynlluniau hydroponeg arloesol ynghyd â thechnegau newydd o dyfu cynnyrch mewn tai gwydr anferth ond yn ynni effeithlon a gyda defnydd o ddadleithyddion clyfar.

Mae'r technolegau hyn yn rhai fydd modd eu defnyddio ar draws y byd mewn gwledydd lle mae dwr yn brin ac yn wir ymhobman gyda'r angen i fod yn fwy darbodus efo defnydd dwr.



Yn olaf fe gafodd y gynrychiolaeth o'r Cynulliad y cyfle i ddadorchuddio cofeb i nodi treftadaeth filwrol Cymru yn hen ddinas Jerwsalem. Lleolwyd y gofeb mewn gardd fechan y tu ôl i eglwys Anglicanaidd Eglwys Crist ychydig lathenni o fynedfa enwog y ddinas – Gat Jaffa. Trwy'r fynedfa honno y gorymdeithiodd milwyr o Gymru gyda'r Cadfridog Allenby pan gipiwyd y ddinas oddi ar yr Ottomiaid yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Daeth cynnulleidfa fechan o Gymry lleol ac aelodau'r eglwys atom i nodi'r achlysur. Mae'n debyg mai'r ysgrif ar y gofeb yw'r unig Gymraeg sydd i'w weld yn nunlle yn Hen Ddinas Jerwsalem!

Un o'n ymweliadau olaf oedd â Yad Vashem sef Canolfan Cofio Holocost y Byd lle cawsom gyfle i weld Amgueddfa Hanes yr Holocost ynghyd â chymryd rhan mewn seremoni i goffau dioddefwyr yr Holocost. Roedd y profiad yn un ysgytwol gan amlygu'r erchyllderau a welwyd yn sgil twf gwrth-Semitiaeth o dan y Natsiaid yn yr Almaen a thu hwnt. Cawsom gyfle i wneud darlleniadau fel rhan o'r seremoni gan weddio a nodi moment o dawelwch o flaen y fflam dragwyddol er cof am y rhai a ddioddefodd.

Roedd yr ymweliad yn un hynod brysur a hynod werthfawr. Dysgais lawer am realiti'r sefyllfa ar lawr gwlad yn Israel a Phalesteina gan hefyd ehangu fy nealltwriaeth o'r sefyllfa wleidyddol yno. Y tu hwnt i hynny fe agorwyd fy llygaid i bob math o wersi a phosibiladau inni yng Nghymru yn sgil y profiadau a gefais yn ymwneud â materion economaidd, addysgiadol, amaeth-amgylcheddol, cyfreithiol a llawer mwy. Bu'r ymweliad yn brofiad sydd yn sicr wedi cyfoethogi fy ngallu i gyfrannu at ddatblygiad polisi yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Llyr Gruffydd AC